# Cadwch bethau'n breifat

**Amseru bras:** 45 munud

## Cwestiwn hanfodol

*Pa wybodaeth y dylwn i ei chadw i mi fy hun wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd?*

## Trosolwg o'r wers

Bydd y dysgwyr yn edrych ar wefannau ac yn deall bod llawer ohonynt yn gofyn am wybodaeth sy'n breifat, ac wedyn byddant yn trafod sut i ddelio â cheisiadau o'r fath yn gyfrifol. Bydd y dysgwyr yn adolygu pa wybodaeth sy'n breifat ac na ddylid ei rhannu heb ganiatâd oedolyn maent yn ymddiried ynddo.

Byddant yn gweld ffurflen ar-lein sy'n gofyn am wybodaeth breifat ac yn deall na ddylent fyth rannu'r math hwn o wybodaeth ar-lein. Yna, bydd y dysgwyr yn gweld gwefannau sy'n gofyn iddynt greu enw defnyddiwr, ac yn dysgu rheolau ar gyfer diogelu eu gwybodaeth breifat pan fyddant yn creu enw defnyddiwr.

## Geirfa allweddol

**preifat:** rhywbeth y dylech ei gadw i chi'ch hun, neu ei rannu gyda phobl rydych chi'n ymddiried ynddynt yn unig

**enw defnyddiwr:** enw, a elwir weithiau'n 'enw sgrin', rydych chi'n ei fathu fel y gallwch weld neu wneud pethau ar wefan

## Amcanion dysgu

*Bydd y dysgwyr yn gallu ...*

- adnabod y math o wybodaeth sy'n breifat
- deall na ddylent fyth rannu gwybodaeth breifat ar y rhyngrwyd
- dysgu sut i greu enw defnyddiwr effeithiol sy'n diogelu eu gwybodaeth breifat.

## Deunyddiau a pharatoi

- Paratowch ar gyfer dangos enghraifft o ffurflen ar-lein i'r dysgwyr, fel y dudalen dalu ar wefan fel Amazon (www.amazon.co.uk) neu'r dudalen gofrestru ar wefan fel Etsy (www.etsy.com).
- Ymwelwch â'r gwefannau SecretBuilders (www.secretbuilders.com/gameplay/gameplay.html), The Stacks gan Scholastic (www.scholastic.com/kids/stacks), a LEGO® (www.lego.com) o flaen llaw a pharatoi i'w dangos i'r dysgwyr.
- Papur a phensiliau.

## Adnoddau i'r teulu

- Anfonwch adref y daflen awgrymiadau da i'r teulu ar **Ddiogelwch ar-lein**.

DIGITAL LIFE 101 / ASSESSMENT / DIGITAL LITERACY AND CITIZENSHIP IN A CONNECTED CULTURE /
www.commonsense.org | CREATIVE COMMONS: ATTRIBUTION-NONCOMMERCIAL-SHAREALIKE
Addaswyd a chyfieithwyd gan Lywodraeth Cymru, 2017
Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

## cyflwyniad

## Cyflwyniad *(10 munud)*

**GOFYNNWCH:**

*Beth fyddech chi'n ei wneud petai rhywun nad ydych chi'n ei adnabod yn gofyn i chi am eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn?*

Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol na ddylent fyth roi'r wybodaeth hon heb ganiatâd oedolyn maent yn ymddiried ynddo. Gallwch achub ar y cyfle hwn i wirio bod eich dysgwyr yn gwybod y wybodaeth hon. Os nad ydynt, helpwch nhw i'w dysgu ar eu cof.

**DIFFINIWCH** y gair allweddol **preifat**.

**ESBONIWCH** i'r dysgwyr ei bod yn bwysig iddynt wybod gwybodaeth benodol amdanyn nhw eu hunain, ond ei bod hefyd yn bwysig cadw'r wybodaeth hon yn breifat. Dylent ei chadw iddyn nhw eu hunain a pheidio â'i rhannu, heblaw pan fyddant yn delio â phobl maent yn ymddiried ynddynt fel perthnasau, athrawon, neu ffrindiau agos.

**GWAHODDWCH** y dysgwyr i roi enghreifftiau o wybodaeth y dylent ei chadw'n breifat. Ysgrifennwch eu hymatebion ar y bwrdd neu ar bapur siart fel y gallwch fynd yn ôl atynt yn ddiweddarach yn y wers. Gwnewch yn siwr eu bod yn deall bod gwybodaeth breifat yn cynnwys y canlynol:

- enw llawn
- oedran
- cyfeiriad
- rhif ffôn
- cyfeiriad e-bost (neu gyfeiriadau e-bost eu rhieni/gofalwyr)
- ble maent yn mynd i'r ysgol neu ar ôl ysgol
- ble mae eu rhieni/gofalwyr yn gweithio

**ANOGWCH** y dysgwyr i drafod pam mae'n bwysig cadw'r wybodaeth hon yn breifat. Pwysleisiwch nad yw byth yn ddiogel rhoi gwybodaeth breifat i bobl nad ydynt yn eu hadnabod. Dylent bob amser ofyn i riant/gofalwr cyn rhoi gwybodaeth breifat i unrhyw un.

## addysgu 1

## Gofynnwch cyn i chi ddweud *(10 munud)*

**GOFYNNWCH:**

*Beth fyddech chi'n ei wneud petai rhywun nad ydych chi'n ei adnabod yn anfon neges e-bost neu neges wib atoch yn gofyn am eich cyfeiriad neu rif ffôn?*

Dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol na ddylent rannu'r wybodaeth hon ar-lein.

**ESBONIWCH** i'r dysgwyr ei bod yn bwysig cadw gwybodaeth benodol yn breifat pryd bynnag y byddant yn defnyddio'r cyfrifiadur. Byddant yn dysgu rhai rheolau i'w helpu i wneud hyn.

**ANOGWCH** y dysgwyr i rannu enghreifftiau o adeg pan oeddent neu rywun maent yn ei adnabod wedi llenwi ffurflen yn gofyn am wybodaeth breifat. Fe allent sôn am nodi eu henw a'u dosbarth ar frig taflenni neu brofion. Fe allent hefyd fod wedi gweld eu rhieni/gofalwyr yn llenwi slipiau caniatâd neu fathau eraill o ffurflenni.

**DANGOSWCH** ffurflen ar-lein i'r dysgwyr sy'n gofyn am wybodaeth breifat.


CREATIVE COMMONS: ATTRIBUTION-NONCOMMERCIAL-SHAREALIKE
Addaswyd a chyfieithwyd gan Lywodraeth Cymru, 2017
Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

**ANOGWCH** y dysgwyr i ddarllen y ffurflen, gan enwi'r gwahanol ddarnau o wybodaeth y mae'n gofyn amdanynt.

**GOFYNNWCH:**

| | |
|---|---|
| *A ydych chi'n credu bod yr wybodaeth hon yn breifat?* | Dylai'r dysgwyr sylweddoli bod pethau fel cyfeiriad, rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost yn breifat. |
| *Sut mae llenwi gwybodaeth breifat ar ffurflen yr un fath â'i rhoi i ddieithryn ar lafar?* | Dylai'r dysgwyr ddeall bod pobl nad ydynt eu hadnabod yn gallu gweld gwybodaeth maent yn ei rhoi ar y cyfrifiadur. |

**ARWEINIWCH** y dysgwyr i ddeall na ddylai plant fyth lenwi ffurflenni fel yr un yma ar eu pennau eu hunain. Oedolion yn unig a ddylai lenwi ffurflenni sy'n gofyn am wybodaeth breifat.

## addysgu 2

### Sut i ddefnyddio enw defnyddiwr *(20 munud)*

**GWAHODDWCH** y dysgwyr i archwilio un neu fwy o'r gwefannau canlynol gyda chi.

**DIFFINIWCH** y gair allweddol **enw defnyddiwr**. Yna, cliciwch ar y wefan/gwefannau i ddangos i'r dysgwyr ble mae'n gofyn iddynt fathu enw defnyddiwr.

**SecretBuilders** (www.secretbuilders.com/gameplay/gameplay.html): Cliciwch ar "New Player", dewiswch oedran, ac yna dewiswch "I'm a Girl" neu "I'm a Boy".

**The Stacks gan Scholastic** (www.scholastic.com/kids/stacks): Cliciwch ar "Log in Now".

**LEGO®** (www.lego.com): Cliciwch ar "Sign Up".

**ESBONIWCH** i'r dysgwyr fod rhai gwefannau'n gofyn iddynt am enw defnyddiwr cyn y gallant chwarae gemau a gwneud pethau eraill ar y wefan. Gallant greu enw defnyddiwr yn lle rhoi gwybodaeth breifat.

**GOFYNNWCH:**

| | |
|---|---|
| *A ydych chi'n credu y dylech ddefnyddio'ch enw go iawn, neu rywbeth sy'n cynnwys eich enw go iawn, pan fyddwch chi'n creu enw defnyddiwr?* | Dylai'r dysgwyr ddeall bod eu henw go iawn yn breifat, ac felly na ddylai fyth fod yn rhan o'u henw defnyddiwr. |

**ARWEINIWCH** y dysgwyr trwy'r rheolau a'r awgrymiadau da canlynol ar gyfer creu enw defnyddiwr.

**Rheolau**

- Gofynnwch i riant/gofalwr neu oedolyn arall rydych chi'n ymddiried ynddo cyn creu enw defnyddiwr.
- Peidiwch byth â chynnwys unrhyw wybodaeth breifat yn eich enw defnyddiwr, fel eich enw go iawn, eich oedran, eich pen-blwydd, enw eich ysgol neu eich tref, rhannau o'ch cyfeiriad neu'ch rhif ffôn, na'ch cyfeiriad e-bost.
- Ceisiwch osgoi defnyddio symbolau neu fylchau, gan nad ydynt yn cael eu caniatáu mewn enwau defnyddiwr fel arfer.


CREATIVE COMMONS: ATTRIBUTION-NONCOMMERCIAL-SHAREALIKE
Addaswyd a chyfieithwyd gan Lywodraeth Cymru, 2017
Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative

**Awgrymiadau da**

- Ceisiwch gynnwys enw rhywbeth a fydd yn eich helpu i gofio'ch enw defnyddiwr, fel eich hoff anifail, gymeriad, neu degan. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gyfuno hwn â geiriau eraill neu rifau.
- Os yw'r enw defnyddiwr rydych chi'n ei greu eisoes wedi cael ei ddefnyddio, bydd rhaid i chi feddwl am un arall.
- Ysgrifennwch eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair ar ddarn o bapur a, chyda chymorth rhiant/gofalwr, dewch o hyd i rywle diogel i'w cadw rhag ofn i chi eu hanghofio.

**DOSBARTHWCH** bapur a rhannwch y dysgwyr yn barau.

**GOFYNNWCH** i'r dysgwyr gyfweld eu partner gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol, ac ysgrifennu ei ymatebion.

- Beth yw dy hoff anifail anwes neu anifail gwyllt?
- Beth yw dy hoff sioe deledu, llyfr, neu gymeriad ffilm?
- Beth yw dy hoff rifau?

**DYWEDWCH** wrth y dysgwyr i greu tri enw defnyddiwr diogel ar gyfer eu partner gan ddefnyddio'r wybodaeth o'u hymatebion cyfweliad. Ni ddylent gynnwys enw, oedran, ysgol, cyfeiriad e-bost na phen-blwydd eu partner, nac unrhyw wybodaeth breifat arall amdano.

**GWAHODDWCH** y dysgwyr i rannu un neu fwy o'u henwau defnyddiwr â'r dosbarth. Anogwch y dysgwyr i ymateb i'w henwau defnyddiwr ei gilydd, gan gadarnhau bod pob enw'n dilyn y rheolau maent wedi'u dysgu.

## gorffen

### Ymarfer i gloi *(5 munud)*

Gallwch ofyn y cwestiynau hyn i asesu dealltwriaeth eich dysgwyr o amcanion y wers.

**GOFYNNWCH:**

| | |
|---|---|
| *Pryd gallech chi gael cais i roi gwybodaeth breifat ar y cyfrifiadur?* | Dylai'r dysgwyr ddisgrifio sut gallent gael cais weithiau i lenwi gwybodaeth breifat ar ffurflen. Gallent hefyd sôn am negeseuon e-bost a negeseuon gwib. |
| *Pa wybodaeth y dylech chi ei chadw'n breifat bob amser pan fyddwch chi'n defnyddio cyfrifiadu?* | Dylai'r dysgwyr sôn am eu henw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, oedran, ac ati. |
| *Pa reolau y dylech chi eu dilyn pan fyddwch chi'n creu enw defnyddiwr?* | Dylai'r dysgwyr sylweddoli mai enw defnyddiwr diogel yw un nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth breifat ac sy'n rhwydd ei gofio. Dylent hefyd gofio cael caniatâd oedolyn cyn cofrestru ar unrhyw wefan newydd. |


www.commonsense.org | CREATIVE COMMONS: ATTRIBUTION-NONCOMMERCIAL-SHAREALIKE
Addaswyd a chyfieithwyd gan Lywodraeth Cymru, 2017
Un o fentrau Llywodraeth Cymru Welsh Government Initiative
WG 29801_Y1